**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Rhagfyr 2016 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs. W. Mullen-James, A. J. Rutherford, D. Simmons, W. N. Tasker, a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 68. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), B. Blakeley (trafferthion car), Mrs J. Butterfield YH MBE (ar wyliau), Mrs. J. Hughes (yn sâl), Mrs. P. M. Jones (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), S. H. Ratcliffe (ymrwymiad arall), Miss S. Roberts (ymrwymiad personol), Miss R. Siddall (ymrwymiad gwaith), Miss C. L. Williams (yn sâl). Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref (Gwyliau Blynyddol)

## 69. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – HYDREF 2016

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Hydref 2016.

| | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 139 | Avaya Leasing | 379.33 | Taliadau prydles ar gyfer System Ffôn Avaya |
| 140 | BT | 82.62 | Rhentu Llinell |
| 141 | BT | 335.78 | Rhentu Llinell a Galwadau |
| 003 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 4,500.00 | Rhent ar gyfer Llawr 1af Canolfan Gymunedol y Rhyl |
| 142 | Sage & Co | 30.00 | Ffioedd Cyflogres Misol Hydref 2016 |
| 143 | St Johns Cymru | 96.00 | Darpariaeth Cymorth Cyntaf ar gyfer y Penwythnos Gwyllt |
| 144 | Karen Mason | 250.00 | Ail-actio'r Oes Haearn ar gyfer y Penwythnos Gwyll |
| 145 | Gary Jones | 180.00 | Sgiliau Syrcas a Hud ar gyfer y Penwythnos Gwyllt |
| 146 | HSBC | 11.12 | Taliadau Banc 17eg Awst i 16eg Medi |
| 147 | Cyngor Sir y Fflint | 3,651.27 | Didyniadau Pensiwn Medi 2016 + cyllid diffyg |
| 148 | CTthEM | 2,573.51 | Didyniadau PAYE Medi 2016 |
| 149 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Medi 2016 |
| 150 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,545.21 | Cyflogau Staff Cyngor Tref y Rhyl Hydref 2016 |
| 014 | Cyngor Sir Ddinbych | 510.00 | Y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 Rhandaliad 7 o 10 |
| 085 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,833.33 | Gweithiwr Apêl Hydref 2016 |
| 151 | Cyngor Sir Ddinbych | 1,617.34 | Cyfraniad Gala'r Maer 2015/16 |
| 152 | Cyngor Sir Ddinbych | 36,500.00 | Cyfraniadau i Amrywiol Ddigwyddiadau |
| 153 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 28.00 | Llogi Ystafell ar gyfer Cyfarfod NWATC |
| | | | |
| | **Cyfanswm Taliadau** | **60,563.51** | |
| | | | |
| | HSBC | 15.84 | Llog ar arian 7 Day Money Market |
| | Santander | 18.49 | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod |
| | HMRC | 11,990.36 | Ad-daliad TAW Ch2 2016/17 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cronfa Les Gorsaf Dân y Rhyl | 1,600.00 | Cyfraniad tuag at y Goelcerth a Thân Gwyllt |
| | | | |
| | **Cyfanswm Derbynebau** | 13,624.69 | |

## 70. NEWID SYNIADAU - BLWYDDYN 3

Ymhellach i gofnod rhif 116 cyfarfod 17eg Chwefror 2016, cyflwynodd Clerc y Dref adroddiad cynnydd ar gyfer menter Newid Syniadau a gofynnodd am gadarnhad y byddai'r Cyngor yn dymuno cyfrannu i flwyddyn 3 y rhaglen.

Dywedodd cynrychiolydd penodedig y Cyngor Tref, y Cynghorydd A.J. Rutherford ei fod yn teimlo y byddai'n fuddiol parhau gyda'r fenter am y flwyddyn olaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Tref yn parhau i gymryd rhan yn y fenter am y drydedd flwyddyn, a'r olaf.*

## 71. CYRCHFANNAU PRYDAIN

Dywedodd Clerc y Dref bod angen adnewyddu'r tanysgrifiad blynyddol i'r mudiad uchod nawr a gofynnodd am gyfarwyddiadau'r Aelodau o ran a ddylid adnewyddu ai peidio.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi'r gorau i'r aelodaeth.*

## 72. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GRŴP BUSNES Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 101 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Ebrill 2016, soniodd y Cadeirydd am yr anhawster roedd yn ei gael yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Busnes y Rhyl a gofynnodd i'r Pwyllgor benodi cynrychiolydd yn ei le

Nododd y Cadeirydd ei resymau am beidio â medru ymrwymo i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Busnes.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Tony Thomas fel cynrychiolydd y Cyngor Tref.*

## 73. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20mya) (TRELLEWELYN ROAD, Y RHYL) 2016

Cyflwynodd y Cadeirydd fanylion cynigion (dosbarthwyd copi gyda'r rhaglen) cyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya ar Trellewelyn Road a gofynnodd am farn yr Aelodau.

Mynegodd yr Aelodau bryderon bod ardaloedd eraill yn y dref lle'r oedd cyfyngiad cyfymder 20mya wedi ei gyflwyno wedi achosi dryswch i yrwyr (yn enwedig lle'r oedd y cyflymder yn amrywio ar wahanol adegau'r dydd megis ger Ysgol Uwchradd y Rhyl), nad oedd nifer o yrwyr yn glynu ato heb fod yn ymwybodol ohono neu'n dewis ei anwybyddu, a'i bod yn ymddangos bod mesurau tawelu traffig megis twmpathau wedi eu gosod yn wael.

Nododd yr Aelodau hefyd bod straeon diweddar yn y newyddion yn awgrymu bod ardaloedd eraill nawr yn rhoi'r gorau i fesurau o'r fath oherwydd pryderon amgylcheddol.

***PENDERFYNWYD*** *cefnogi'r cynnig yn amodol ar y ffaith ei fod yn cael ei orfodi.*

**74. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – PREMIWM Y DRETH GYNGOR AR AIL GARTREFI A CHARTREFI GWAG TYMOR HIR**

Cyflwynodd y Cadeirydd fanylion (dosbarthwyd copi gyda'r rhaglen) y cynnig i gyflwyno Treth Gyngor ychwanegol ar dai gwag hirdymor ac ail gartrefi yn y Sir a gofynnodd am farn y Cyngor Tref.

Dywedodd Clerc y Dref na fyddai'r cynnig yn effeithio lefel y cyllid a godwyd gan/a dderbyniwyd gan Gynghorau Cymuned ac y byddai'r arian a godwyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi mentrau lleol.

***PENDERFYNWYD*** *cefnogi'r cynnig yn amodol ar ddefnyddio unrhyw gyllid a godwyd gan y Sir yn ardal y Gymuned lle codwyd yr arian i ddychwelyd eiddo gwag er mwyn cael pobl yn byw ynddynt.*

**75. GWYBODAETH: BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR – YSBYTY NEWYDD ARFAETHEDIG YN Y RHYL AR GYFER GOGLEDD SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cadeirydd fanylion digwyddiad ymgynghori cyhoeddus i'w gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (a ddosbarthwyd gyda'r Rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr wybodaeth a bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys cyfleustra mân anafiadau yn yr ysbyty.*

**76. EITEM ER GWYBODAETH: CYFOETH NATURIOL CYMRU – CYNLLUN LLIFOGYDD SPLASH POINT Y RHYL**

Cyflwynodd y Cadeirydd fanylion Cynllun Llifogydd Splash Point, y Rhyl er gwybodaeth i'r Aelodau (copi a ddosbarthwyd gyda'r Rhaglen).

Wrth groesawu'r ddogfen ar gyfer ardal Dwyrain y Rhyl, mynegodd yr Aelodau eu siom gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am beidio â chysylltu'n briodol gyda wardeniaid llifogydd gwirfoddol eraill ledled y Rhyl gan gynnwys uwch warden y Rhyl, nad oedd, er gwaethaf ymgymryd â hyfforddiant, yn derbyn cyfathrebiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am restr lawn o wardeniaid llifogydd yn y Rhyl ac yn mynegi siom ynglŷn â lefel y gyfathrebu gyda'r Wardeniaid yn yr ardal.*

**77. EITEM ER GWYBODAETH: CANLLAW I ETHOLIADAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Cyflwynodd y Cadeirydd y ddogfen uchod (copi a ddosbarthwyd gyda'r Rhaglen) er gwybodaeth i'r Aelodau.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'n gofyn am 22 pecyn enwebu ar gyfer yr Aelodau presennol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 78. EITEM GAN AELOD – Y CYNGHORYDD P. PRENDERGAST

Hysbysodd y Cynghorydd P. Prendergast yr Aelodau o bryderon yr oedd wedi eu derbyn gan aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r Goelcerth, yn enwedig mewn perthynas â chasglu arian mynediad.

Nododd Aelodau eraill bryderon a fynegwyd iddynt hwy, yn benodol ynglŷn â sbwriel yn y cae.

Hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod am ymateb Clwb Lles ac Adloniant Gorsaf Dân y Rhyl a'r rhesymau am y materion a godwyd a sut roeddynt wedi cael eu trin.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y cae wedi ei glirio o sbwriel y diwrnod ar ôl y goelcerth.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Cynghorydd S. Ratcliffe wedi ei benodi gan y Cyngor i fod yn aelod cyswllt gyda'r Clwb Lles i gynnal cyfarfod ar ôl y digwyddiad i drafod materion o'r fath.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorydd S. Ratcliffe yn codi'r materion wrth gyfarfod gyda'r Clwb Lles a chynnig cymorth Cynghorwyr y Dref fel wardeniaid ychwanegol mewn digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.*

## 79. EITEM GAN AELOD – Y CYNGHORWYR B. MELLOR A D. SIMMONS

Cyfeiriodd y ddau Aelod at achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd o gwmpas Hilton Drive a gofyn bod eitem yn cael ei chynnwys ar raglen i'r dyfodol 'r Cyngor ystyried ariannu colofn stryd ychwanegol.

***PENDERFYNWYD*** *yn unol â hynny.*

## 80. PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYFARFOD GYDA CHYNGOR SIR DDINBYCH

Ymhellach i Gofnod Rhif 86 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Tachwedd 2016, dywedodd Clerc y Dref bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cysylltu yn gofyn am gyfarfod ac roedd eisiau penodi cynrychiolwyr i fynychu.

Teimlai'r Aelodau, o ystyried natur y cais a oedd yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ddinbych, ei bod yn briodol i'r swyddogion fynychu cyfarfod llawn o'r Cyngor i drafod y mater.

***PENDERFYNWYD*** *bod Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod o'r Cyngor i'w gynnal ar 21ain Rhagfyr i drafod y cynnig yn fanwl a bod holl faterion eraill ar gyfer y noson honno yn cael eu trosglwyddo, lle bo modd, i gyfarfod diweddarach o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.*

**81. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**82. DATGANIAD AR ARIAN MAN 1AF EBRILL 2016 – 30AIN MEDI 2916**

Yn unol ag argymhellion yr Archwiliwr Mewnol, cyflwynodd y Cadeirydd gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid ar wariant a achoswyd gan y Cyngor mewn taliadau arian mân ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2016 i 30ain Medi 2016.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**83. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru

**84. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:……………….……..

Dyddiad:………………………